WILLIAMS, SAMUEL (c. 1660 - c. 1722), clerigwr ac awdur

Enw: Samuel Williams
Dyddiad geni: c. 1660
Dyddiad marw: c. 1722
Priod: Margaret Williams (née John)
Plentyn: Moses Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Geraint Bowen

cartrefai yn Abertrosol, Llandyfrïog, deau Ceredigion. Priododd â Margaret, merch Thomas John, Nant-yr-ymenyn, Llandysul, a ganed iddynt un mab, sef Moses Williams. Hyd y gwyddys, ni chafodd addysg ffurfiol, eithr yr oedd ganddo ddigon o gymwysterau i gael ei urddo'n ddiacon yn 1691 i fod yn gurad yn Llandyfrïog, ac yn offeiriad yn 1696, pan gafodd guradiaeth Llanarth ynghyd â'r capeli anwes, Capel Crist a Llanina. Estynnwyd iddo fywoliaeth Llandyfrïog yn 1697 a rheithoraeth Llangynllo yn 1710. Cyflwynwyd bywoliaeth Llandyfrïog i Theophilus Evans yn 1722, ac ni all mai yn ddiweddarach na'r flwyddyn honno y bu farw Samuel Williams. Tystia ei waith ei fod yn gopïwr llawysgrifau profiadol erbyn 1696. Mae'r rhai canlynol yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn ei lâw ef: Llanstephan MS 14, Llanstephan MS 15, Llanstephan MS 16, Llanstephan MS 17, Llanstephan MS 66, Llanstephan MS 89, Llanstephan MS 130, Llanstephan MS 133, Llanstephan MS 134, Llanstephan MS 145, N.L.W. MS. 67, a llawysgrif Achau Bronwydd (N.L.W.). Gorffennodd gyfieithu *Amser a Diwedd Amser* John Fox, yn 1703, ac fe'i cyhoeddwyd yn 1707. Yn 1710, cyhoeddodd *Undeb yn Orchymmynedig i Ymarfer*, sef ei gyfieithiad o Saesneg gwreiddiol y Dr. D. Phillips, rheithor Maenor Deifi. Ef, hefyd, a oedd yn gyfrifol am gyfieithu 'r mynegai i *Feibl* 1718 y S.P.C.K. Paratôd gyfieithiadau eraill, ond arhosant mewn llawysgrifau, sef ' Gofal Tylwyth neu Ddyled Pennau Teuluoedd,' Erasmus Saunders (Llanstephan MS 146), ' Immanuel neu Ddirgelwch Cnawdoliath Mab Duw,' James Ussher (Llanstephan MS 22). ' Prawf fod degymau yn ddyledus wrth Ordinhad had Duw ' (Llanstephan MS 111) y dechreuodd ei gyfieithu yn 1699, y flwyddyn y sefydiwyd S.P.C.K., a dwy gyfrol o bregethau, sef N.L.W. MS. 68, cyfieithiadau o Saesneg yr esgob Beveridge, a Cwrtmawr MS. 253, cyfieithiadau o waith amryw awduron. Ei unig ryddiaith wreiddiol, ac eithrio cyflwyniadau, ydyw ' Gweddiau Teuluoedd i'w harfer Ar amryw Achosion,' ond erys y gwaith hwn eto mewn llawysgrif (Llanstephan MS 146). Yr oedd yn ei fwriad gyhoeddi ' Difyrrwch Teuluoedd ' (Llanstephan MS 145, Llanstephan MS 146), sef casgliad o farddoniaeth gaeth rhyw 100 o feirdd. Yr oedd yn awdur halsingod, ac ef, ond odid, a gyhoeddodd *Pedwar o Ganuau*, 1718, yr unig gasgliad o halsingod a argraffwyd erioed. Prin iawn ydyw ei gerddi caeth. Ef biau'r englynion mawl i awdur *Meddylieu Neilltuol ar Grefydd*, 1717, ac i'w gyfaill llenyddol, ' Iaco ab Dewi ' (James Davies, 1648 - 1722).

Awdur

Dr Geraint Bowen

Ffynonellau

John Davies, *Bywyd a Gwaith Moses Williams, (1685-1742)* (1937)

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1946

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804772

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.